# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

**(Via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 21 Ionawr 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, S.Harris, J.Jones, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips, M.Protheroe, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick a/ac A. Amor |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | A.Evans, A.Thomas, C.Millis, M.Daley, PWalker, H.Lervy, J.Woodman-Ralph a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees a/ac C.Clement-Williams |

---

## 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020.

## 2. DIWEDDARIAD LLAFAR - EFFEITHIAU COVID-19 AR YR ADRAN ADDYSG

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad llafar ar yr effeithiau y mae COVID-19 wedi'u cael ar yr Adran Addysg, Sgiliau a Diwylliant. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r diweddariad yn parhau'n bennaf ar y gweithgareddau yn ystod mis Ionawr.

Nodwyd bod dysgu o bell wedi bod ar waith ym mhob ysgol ers 4 Ionawr 2021, fodd bynnag, roedd ysgolion yn parhau i fod ar agor i

ddisgyblion gweithwyr allweddol a dysgwyr sy'n agored i niwed. Roedd presenoldeb corfforol yn yr ysgol wedi cynyddu, roedd 400 o ddisgyblion gweithwyr allweddol a/neu ddysgwyr agored i niwed yn bresennol yr wythnos gyntaf yn ôl ym mis Ionawr 2021. Roedd y presenoldeb hwnnw wedyn wedi cynyddu i 1,000 o ddisgyblion, a oedd yn cyfateb i 5% o boblogaeth y disgyblion. Roedd ysgolion wrthi'n annog dysgwyr agored i niwed i fynychu'r ysgol.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith nad oeddent wedi derbyn y canllawiau gweithredol gan Lywodraeth Cymru eto ynghylch agor ysgolion. Fodd bynnag, roeddent wedi diweddaru ysgolion ar lafar ar 2 bwynt penodol a oedd yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb. Nodwyd bod cadw pellter cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ddiangen ar gyfer disgyblion mewn amgylchedd ystafell ddosbarth cyn diwedd mis Rhagfyr 2020, ond oherwydd amrywiolion newydd, roedd asesiadau risg bellach wedi'u diwygio sy'n golygu y barnwyd bod angen i ddisgyblion gadw pellter cymdeithasol yn yr ysgol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Barnwyd bod gorchuddion wyneb hefyd yn angenrheidiol ar gyfer disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunedol yn yr ysgol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn seiliedig ar asesiadau risg lleol. Byddai'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu unwaith eto erbyn diwedd mis Chwefror.

Nodwyd y bu datganiad yn y wasg yn ddiweddar ynghylch Cyfres Arholiadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5. Roedd hyn yn arwain at raddau asesu canolfannau a fyddai'n cael eu darparu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 10, 11, 12 a 13 lle bo hynny'n berthnasol. Nodwyd bod swyddogion yn gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau ymagwedd gyson. Soniwyd y byddai ysgolion yn dod yn ganolfan apelio ar gyfer y disgyblion neu'r rhieni hynny nad ydynt efallai'n fodlon ar y canlyniadau. Unwaith eto, sicrhaodd swyddogion yr aelodau y byddent yn gweithio gydag ysgolion ac yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Tynnodd swyddogion sylw'r aelodau at y ffaith eu bod yn cyfarfod â phenaethiaid bob dydd i sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal. Nodwyd bod sesiynau Iechyd a Lles wedi'u caffael i gefnogi penaethiaid.

Cafwyd trafodaethau ynghylch argaeledd dyfeisiau ar gyfer disgyblion a phryderon cysylltedd. Nodwyd yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth/Ebrill 2020, nad oedd gan 1,300 o ddisgyblion

fynediad at ddyfais a bod gan 228 o aelwydydd ddiffyg cysylltedd addas. I'r disgyblion hynny nad oedd ganddynt fynediad at ddyfais a/neu a oedd â materion cysylltedd, darparwyd Chromebook ac unedau MiFi iddynt.

Yn dilyn y cyfnod o ddysgu ar-lein yn ddiweddar oherwydd y cyfyngiadau symud, roedd y cyngor hefyd wedi darparu dyfeisiau priodol i athrawon.

Nodwyd y bu oedi wrth brynu Chromebooks yn 2020, gan ohirio derbyn yr eitemau hyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am brofion llif unffordd a oedd yn cael eu treialu ar hyn o bryd, roedd ysgolion Castell-nedd Port Talbot wedi dewis peidio â chymryd rhan, oherwydd y pwysau presennol ar ysgolion i sicrhau bod addysg yn flaenoriaeth allweddol.

Cafodd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaethau'r Gwasanaeth Cynhwysiant. Nodwyd bod y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion wedi sefydlu dwy linell gymorth ar gyfer staff ysgol a disgyblion cynradd yn ogystal â chynllun goruchwyliaeth peilot. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddau wasanaethau wedi'u hariannu gan grantiau.

Trafodwyd diwygio'r cwricwlwm a phwysigrwydd parhau â dysgu cyfunol fel elfen allweddol mewn ysgolion ar ôl COVID-19.

Nodwyd bod y gwasanaeth Ieuenctid wedi ennill marc ansawdd efydd.

Holodd yr aelodau a oedd posibilrwydd y gallai disgyblion gael blwyddyn ychwanegol i'w galluogi i ddal i fyny ar yr addysg y gallent fod wedi'i cholli o ganlyniad i COVID-19.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cymorth a ddarperir i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Tynnodd y swyddogion sylw at yr ymagwedd ragweithiol yr oeddent wedi'i chyflawni ar gyfer yr ysgolion oherwydd yr anawsterau sy’n gallu ymddangos o addysg gartref gyda disgyblion o ysgolion Cymraeg. Buont yn trafod sgiliau yr oedd disgyblion wedi'u hennill megis trawsieithu a phwysigrwydd hyn.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai profion llif unffordd yn cael eu cynnig i ofalwyr plant. Cadarnhaodd Swyddogion y byddent yn cwestiynu hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Canmolodd yr Aelodau Craffu ac Aelodau'r Cabinet waith y swyddogion.

Yn dilyn craffu, nodwyd y diweddariad.

## 3. YMGYNGHORI AR GYNIGION CYLLIDEBOL 2021/22

Derbyniwyd trosolwg ar gynigion cyllideb ddrafft Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes 2021/2022.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cynigion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn nifer bach o strategaethau arbed y craffwyd ac yr ymgynghorwyd arnynt eisoes, ac a gymeradwywyd gan y cyngor ar 6 Mawrth 2020.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau hefyd am y pwysau cyllidebol i'r gwasanaeth, ynghyd â'r arbedion, y toriadau a'r cyfleoedd i gynhyrchu incwm y manylir arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn ystod y drafodaeth ar y gyllideb, mynegwyd pryder ynghylch yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael yn ystod y cyfnod digynsail hwn a'r effeithiau anrhagweladwy y mae wedi'u cael ar y gymuned a'r gyllideb. Roedd yr Aelodau am gael sicrwydd bod Swyddogion yn hyderus na fyddai eu rhagfynegiadau ar gyfer y costau gwariant yn cynyddu'n ddramatig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Nododd swyddogion y byddai effeithiau COVID-19 yn parhau am gyfnod eto, fodd bynnag, mae'r bartneriaeth rhwng y cyngor ac ysgolion yn gryf gan sicrhau bod y camau a oedd yn cael eu cymryd yn ogystal â chynllunio yn y dyfodol wedi'u costio'n ofalus. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid sylw hefyd at y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i'w darparu i'r cyngor drwy'r cyfnodau anodd hyn.

Roedd gan yr Aelodau bryderon ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y Gwasanaeth Glanhau oherwydd cyllidebau ysgolion. Sicrhaodd swyddogion yr aelodau fod y Gwasanaeth Glanhau mewnol wedi rhagori ei hun dros y misoedd diwethaf oherwydd effeithiau COVDI-19 a'i fod ar sylfaen gadarn a bod galw amdano.

Gofynnwyd a fyddai Orendy Margam yn gallu dychwelyd i fod yn lleoliad priodas eleni, os yw’r broses frechu’n cael ei chwblhau mewn modd amserol. Holodd yr Aelodau hefyd a oedd Llywodraeth Cymru yn ariannu'n colled o £279,000 mewn incwm i Orendy Margam. Nodwyd, cyn gynted ag y bydd Orendy Margam yn ailagor fel lleoliad

ac nid fel canolfan frechu, y caiff ei ddefnyddio eto. Nododd swyddogion fod Llywodraeth Cymru, fel y crybwyllwyd eisoes gan yr Aelod y Cabinet dros Gyllid, wedi bod yn gefnogol iawn ac y byddai'n rhoi cymorth o fewn rheswm.
Diolchodd Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant i'r Aelodau Craffu am eu cyfraniad i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb a chanmolodd y Swyddogion am eu hymdrechion.

Yn dilyn craffu ar fanylion y gyllideb yn yr adroddiad, atgoffwyd yr aelodau y byddai eu sylwadau o'r cyfarfod hwn yn rhan o'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gyfer cyllideb 2021/22. Gofynnwyd iddynt, os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllidebol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgaeedig, fynd ati i gysylltu â Swyddogion i'w hystyried.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2020-21

Nododd yr Aelodau y Flaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**